# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2016

Amser: 09.02 - 11.03

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3382

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc)<br>Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod]().

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Nid oedd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**2.1 Maes Awyr Caerdydd: Gwybodaeth ychwanegol gan Simon Jones, Cadeirydd Holdco (19 Chwefror 2016)**

**2.2 Maes Awyr Caerdydd: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (22 Chwefror 2016)**

**2.3 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru (24 Chwefror 2016)**

**2.4 Maes Awyr Caerdydd: Gwybodaeth ychwanegol gan Chris Cain, Northpoint Aviation (23 Chwefror 2016)**

**2.5 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Undeb Rygbi Cymru - Cyfyngedig (24 Chwefror 2016)**

**2.6 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan James Price, Llywodraeth Cymru (24 Chwefror 2016)**

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2014-15: Ystyried ymatebion i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Gwnaeth yr Aelodau drafod a nodi'r ymateb a gafwyd gan y sefydliadau ynghylch yr argymhellion a gyflwynwyd iddynt yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar y materion yn ymwneud â threfniadau yswiriant Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dull Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer codi ffi am ddigwyddiadau a'i barn am drefniadau'r ddau sefydliad o ran diswyddo.
- Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad esbonio'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wneud y deunydd a gyhoeddir ar ei wefan yn fwy hygyrch, yn enwedig i bobl â gofynion penodol.
- Cynnwys argymhelliad yn ei adroddiad etifeddiaeth y dylai'r Pwyllgor dilynol graffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn nhymor yr hydref 2016 ac ystyried yn benodol a yw'r ffordd y cyflwynir y cyfrifon wedi gwella ac a ydynt yn cynnwys linc i Adroddiad Rheoli Grantiau Blynyddol Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd hefyd efallai y bydd y pwyllgor dilynol am edrych yn ehangach ar ddull Llywodraeth Cymru o leihau ei defnydd o ynni.
- Cynnwys argymhelliad yn ei adroddiad etifeddiaeth y dylai'r Pwyllgor dilynol graffu ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru yn nhymor yr hydref 2016.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Cytunwyd ar y cynnig.

## 5 Trafod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft diwygiedig ynghylch yr Adolygiad o Siarter y BBC

5.1 Gwnaeth yr Aelodau nodi a chroesawu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft diwygiedig ynghylch yr Adolygiad o Siarter y BBC.

5.2 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i roi diolch iddi am wahodd y Pwyllgor i drafod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ac i roi gwybod hefyd y bydd adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad y dylai'r pwyllgor dilynol ystyried cynnwys cyfrifon y BBC fel rhan o'i waith blynyddol yn craffu ar gyfrifon.

## 6 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Cafodd yr Aelodau wybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ei adroddiad, *Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru*, a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror.